# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 24 EBRILL, 2013 am 10.00 o'r gloch | | WEDNESDAY, 24 APRIL, 2013 at 10.00 p.m. |
| SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol Gwreiddiol / Original Independent**

A M Jones, Eric Roberts, G W Roberts OBE, E Schofield a Ieuan Williams

**Llafur / Labour**

C Ll Everett

**Llais i Fôn**

S Williams

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Mrs Fflur Hughes a W I Hughes

**Heb Ymaelodi / Unaffiliated**

H E Jones

**A G E N D A**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datgan unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2013.

3 **ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/13** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd H. Eifion Jones – Cadeirydd<br><br>Cynghorwyr Mrs. Fflur M. Hughes, Eric Roberts, G.W. Roberts OBE, Elwyn Schofield, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:**: | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd,<br>Rheolwr Gwasanaethau TGCh (BE),<br>Uwch Swyddog Datblygu AD (MW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr W.I. Hughes, Selwyn Williams. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorwyr W.J. Chorlton, G.O. Parry MBE - Arweinyddion Grwpiau (Wedi'u gwahodd). |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2012.

**MATERION YN CODI**

Gofynnwyd cwestiynau yn y cyfarfod diwethaf ynglŷn â'r materion canlynol :-

- **Gwariant ar gyfer Hyfforddi Aelodau**

  Dywedodd yr Uwch Swyddog Datblygu AD – fel yr eglurwyd yn y cyfarfod diwethaf, bychan iawn oedd y gwariant yng nghyswllt hyfforddiant i Aelodau Etholedig oherwydd nad yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn codi am ei wasanaethau. Roedd Ms. Sarah Titcombe o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi egluro mater y costau hyfforddi ymhellach gan nodi bod 'hyfforddiant yn cael ei gyllido gyda grant Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gweithgareddau o fewn awdurdodau lleol nad ydynt yn cael eu cyllido gan gyfraniad Aelodau' a dyma'r rheswm paham nad yw'r CLlLC yn codi am ei wasanaeth.

  Dywedodd y Swyddog ymhellach bod ychydig o hyfforddiant mewnol wedi ei roi i Aelodau gan staff ac fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Safonau ni fyddai gwneud asesiad bras o'r costau yn hyn o beth yn dangos llawer mwy na £1000 y sesiwn. Roedd cost gyffredinol yr holl hyfforddiant a roddwyd i Aelodau Etholedig yn 2012/2013 oddeutu £9,000.

- **Cofrestru Etholiadol/Etholiad Cyngor Sir**

  Rhoddodd y Prif Weithredwr amlinelliad o'i rôl fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiad y Cyngor Sir sydd ar ddod a phwysleisiodd y bydd yn rhaid iddo ddelio gydag ymgeiswyr tebygol ac aelodau etholedig cyfredol ar yr un lefel. Nododd mai gan y Comisiwn Etholiadol y mae'r cyfrifoldeb yn unig ar gyfer materion etholiadol ac fel swyddog canlyniadau roedd yn rhaid iddo weithio o fewn ei reoliadau. Nododd ymhellach fod yr 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru wedi cynnal eu hetholiadau Cyngor Sir fis Mai diwethaf ac mai Ynys Môn fydd yr unig awdurdod fydd yn cynnal etholiad y flwyddyn hon.

Dywedodd mai'r bwriad yw adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror ar strwythur Pwyllgorau newydd yr Awdurdod. Gyda'r gostyngiad yn nifer yr aelodau etholedig o 40 i 30, nododd y bydd y dyrannu Cadeiryddion ar gyfer y Pwyllgorau yn cael ei wneud drwy'r broses arferol o ethol Cadeirydd gan y Pwyllgorau unigol.

**3 Y GOBLYGIADAU I'R GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD MEWN PERTHYNAS Â CHYNIGION CYLLIDEB 2013/14**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod y cynigion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Democrataidd wedi eu cynnwys o fewn y Ddogfen Ymgynghori dan wasanaeth y Dirprwy Brif Weithredwr. Roedd yr agweddau hyn wedi eu sgriwtineiddio eisoes gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2013. Y prif arbedion a nodwyd mewn perthynas â'r Gwasanaethau Democrataidd yw cynigion i roi'r gorau i ddefnyddio amlenni rhagdaledig ar draws y Cyngor. Fe ddarparwyd amlenni parod i Aelodau ers 1996, ar gais, er mwyn iddynt allu gwneud eu dyletswyddau. Yn ystod 2011/12 dim ond 6 Aelod ofynnodd am amlenni parod ar gost o £185. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio hefyd at gyfarwyddyd gan Banel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol Cymru yn ei Adroddiad Blynyddol ar gefnogi gwaith Aelodau awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu'r gefnogaeth ganlynol i Aelodaeth, heb godi unrhyw dâl :-

- Offer TGCh – ipads (cynllun treialu i Aelodau'r Pwyllgor Gwaith), gliniaduron, argraffwyr a deunyddiau darfodedig;
- Band llydan a llinellau ffôn;
- Papur ysgrifennu ar wneud cais amdano;
- Gwasanaethau Post.

Materion a godwyd gan Aelodau :-

- Mynegwyd pryder ynglŷn â gwrthdaro posibl rhwng band llydan preifat a band llydan y Cyngor yng nghartrefi'r Aelodau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau TGCh na ddylidc ael unrhyw wrthdaro technegol trwy fod technoleg wedi mynd rhagddo bellach ac nad oes angen gwahanu'r llinellau ffôn unswydd;

Yn dilyn trafodaeth ddofn **PENDERFYNWYD :-**

- **Cefnogi'r arbedion oedd yn cael eu cynnig mewn perthynas ag amlenni parod;**
- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl Etholiad y Cyngor Sir ar Mai 2013 ar ddarparu cysylltiad band llydan a rheoli diogelwch data.**

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt yr uchod.

Dywedwyd mai pwrpas yr Adroddiad Blynyddol gan Aelodau Etholedig yw gwella'r cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r Cyhoedd. Gan gofio am yr Etholiadau Lleol ym Môn ym Mai 2013 roedd cadarnhad bellach wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, ac yn benodol ar gyfer y Cyngor hwn bod rhaid cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol erbyn Mehefin 2014.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl Etholiadau Lleol Mai 2013 yn gosod allan dempled a phrotocol i Aelodau allu paratoi ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol yn 2014.**

**5 E-DDEMOCRATIAETH I AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Systemau TGCh yng nghyswllt e-Ddemocratiaeth i Aelodau.

Adroddwyd – fel rhan o raglen moderneiddio'r Cyngor, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithredu'r System Reoli Pwyllgor Modern Gov. a fydd yn helpu'r Cyngor i ddarparu ei ddyletswyddau democrataidd. Mae'r system yn ei gwneud yn bosibl i ddarparu yn electronig ac i reoli rhaglenni, papurau a phenderfyniadau pwyllgorau ac mae ar gael i Swyddogion, Aelodau Etholedig a



DRAFT

dinasyddion ar-lein. Yn dilyn Etholiadau Lleol mis Mai 2013 bwriedir mabwysiadu'r system Modern Gov. fel un safonol i'r holl Aelodau. At hyn, bydd y system Modern Gov. yn caniatáu i Aelodau gwblhau a diweddaru nodiadau ar-lein mewn perthynas â chofrestru diddordebau. Nodwyd ymhellach fod Aelodau'r Pwyllgor Gwaith eisoes wedi derbyn dyfeisiadau tabled iPad a'r bwriad yw rhoi iPad i holl Aelodau'r Cyngor Sir ar ôl etholiadau mis Mai. Unwaith y bydd wedi ei mabwysiadu'n llawn bydd y system Modern Gov. a'r iPads yn darparu arbedion sylweddol mewn perthynas â dogfennau'r pwyllgorau, cyhoeddi rhaglenni a bydd yn lleihau'r costau o brintio a phostio i'r awdurdod.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r system Modern Gov. a nodwyd y dylai pob cyfarfod yn y dyfodol gael eu cyhoeddi ar-lein ar wefan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r bwriad i fabwysiadu Modern Gov. fel rhan o foderneiddio arferion gwaith a hefyd roi iPad i bob un o'r Aelodau ar ôl etholiadau mis Mai 2013.**

DRAFT

**CYNGHORYDD H. EIFION JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **23 Mai 2013** |
| **TEITL:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd – Adroddiad Blynyddol 2012/13** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y Pwyllgor yn ystod 2012/13** |

1) **Rhagarweiniad**

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a phenodi un o'i swyddogion fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Yn ei gyfarfod blynyddol ar 10 Mai 2012, penderfynodd y Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor o'r fath fel rhan o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, ac fe wnaed darpariaeth briodol yn ei gyfansoddiad i sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu yn effeithiol gan gynnwys penodi ei Gadeirydd.

Prif bwrpas y Pwyllgor hwn yw adolygu digonolrwydd y ddarpariaeth sydd gan yr Awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gwrdd â dyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau democrataidd ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ar faterion o'r fath.

2) **Cylch gorchwyl a rhaglen waith y Pwyllgor**

Yn ei gyfarfod cyntaf llawn ar 18 Hydref 2012 adroddwyd y gallai'r Pwyllgor, ar gyfer gweddill oes gyfredol y Cyngor, ystyried rhai o'r materion isod:

a) Datblygiad ac effeithiolrwydd gwefan y Cyngor i hyrwyddo democratiaeth;

b) Digonolrwydd gwasanaeth cyfieithu i gefnogi'r broses ddemocrataidd;

c) Y rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau, gan gynnwys adolygiadau perfformiad blynyddol yn seiliedig ar ddisgrifiadau swydd;

d) Cyflwyno cais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Statws Siarter

Cefnogi a Datblygu Aelodau;

e) Datblygu strategaeth ar gyfer datblygu sgiliau TGCH yr aelodau;

f) Ystyried goblygiadau cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Cyllideb 2013/14 i'r Gwasanaethau Democrataidd;

g) Ystyried goblygiadau adolygiad cyfansoddiad y Cyngor i'r swyddogaethau democrataidd;

h) Ystyried rôl a chyfrifoldebau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

Derbyniwyd y materion hyn gan y Pwyllgor a gwnaed argymhelliad pellach a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr 2012 fel a ganlyn:

- "ei fod yn estyn cylch gorchwyl y Pwyllgor i gynnwys cyfrifoldebau ar gyfer y rhaglen hyfforddi a datblygu aelodau , gan gynnwys sgiliau a chefnogaeth yn y maes technoleg gwybodaeth;
- Bod y Pwyllgor yn cynnal tri cyfarfod cyffredinol yn ogystal â'i gyfarfod blynyddol ym mhob blwyddyn sirol gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd pellach fel y cyfyd yr angen";

Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd benodi'r Pennaeth Polisi fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro hyd nes byddair mater wedi ei adolygu gan y Cyngor newydd yn dilyn etholiadau Mai 2013.

3) **Crynodeb o'r materion a drafodwyd a'r statws cyfredol**

Ar wahân i'r cyfarfod llawn cyntaf ym mis Hydref 2012 cyfarfu'r Pwyllgor ar dri achlysur arall. Mae crynodeb o'r materion a gafodd sylw a'r statws cyfredol i'w weld isod:

| Dyddiad y Pwyllgor | Pwnc | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| 17/12/12 | Trosolwg o'r Cynllun Gwaith ar Gyfer Datblygu Aelodau a Gwaith y Gweithgor Datblygu Aelodau | Mae gwaith y Grŵp Datblygu Aelodau wedi ei ymgorffori bellach fel rhan o'r cylch-gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi ei ddynodi fel y Pencamwr Aelodau.<br><br>Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r Cyngor Sir ar 23 Mai yn cynnwys manylion am y Rhaglen Datblygu Aelodau ar gyfer 2013/14. |



DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Siarter Cymru ar Gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau | Adroddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r Pwyllgor ar ofynion y Siarter ac mae gwybodaeth wedi ei gyflwyno ar gyfer Statws Marc Siarter.<br><br>Cynhaliwyd Adolygiad Cymheiriaid o'r Gwasanaethau Democrataidd mis Ionawr 2013 gan CLILC i gefnogi gwaith o safbwynt cwrdd â gofynion y Siarter, paratoi ar gyfer y Cyngor newydd a siapio'r rhaglen drawsnewid.<br><br>Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor fel rhan o'i rhaglen waith ar gyfer 2013/14. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo darlledu cyfarfodydd a mynychu o bell. Mae'r agweddau hyn yn rhan o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. |
| 4/2/13 | Goblygiadau cynigion cyllideb 2013/14 i'r Gwasanaethau Democrataidd | Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror 2013 fel a ganlyn:<br><br>1) Cefnogi'r arbedion mewn perthynas ag amlenni rhagdaledig;<br><br>2) Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar ôl etholiadau Mai 2013 a darparu cysylltiad band eang a diogelwch data ar gyfer aelodau.<br><br>Bydd hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2013/14. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol gan Aelodau | Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae gofyn i'r Aelodau gynhyrchu adroddiadau blynyddol erbyn Mehefin 2013. O gofio y cynhelir etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai 2013, nid oes rhaid i'r Aelodau bellach gynhyrchu'r adroddiadau blynyddol tan Fehefin 2014. Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro yn adrodd i'r Pwyllgor hwn ar y templed ar gyfer Aelodau i baratoi adroddiadau blynyddol. |
| | E-ddemocratiaeth ar gyfer Aelodau<br><br>Mabwysiadu system rheoli pwyllgorau Modern Gov i foderneiddio arferion gweithio a chyflwyno iPad ar gyfer yr holl Aelodau ar ôl etholiadau Mai 2013. | Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu y bydd iPad yn cael ei roi i bob Aelod o'r Cyngor newydd yn dilyn etholiadau Mai 2013.<br><br>Y bwriad yw cyflwyno'r trefniadau yn raddol o fis Mai 2013 hyd at ddiwedd Medi 2013 i sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n fwyfwy mewn modd ddi-bapur, gan gydnabod yr angen i gael cyfnod pontio a fydd yn hwyluso trawsnewid i ddefnyddio'r dechnoleg newydd.<br><br>Bydd y Pwyllgor yn monitro cynnydd fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2013/14. |
| 24/04/13 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor | Adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Sir 23/05/13. |

| 4) Argymhelliad |
|---|
| Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr adroddiad a nodi'r materion a fu'n rhan o raglan waith y Pwyllgor ar gyfer 2012/13. |

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**15/04/13**



DRAFT